Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Ein Harglwyddes

**Ffordd Caergybi**
**Bangor**
**Gwynedd**
**LL57 2UT**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2011**

**gan**

**Wil Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol Gatholig wirfoddol dan gymorth yw Ysgol Ein Harglwyddes sydd wedi ei lleoli ar gyrion dinas Bangor. Mae'r ysgol yn gwasanaethu plwyfi Pabyddol Bangor, Bethesda, Porthaethwy a Llangefni gyda rhai disgyblion yn teithio cryn bellter i ddod i'r ysgol. Disgrifir yr ardal fel un nad yw'n ffyniannus nag ychwaith o dan anfantais economaidd.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer 122 o ddisgyblion rhwng tair ac un ar ddeg mlwydd oed a gaiff eu haddysgu mewn pedwar dosbarth, gyda'r cyfan yn cynnwys ystod oedran cymysg. Mae un dosbarth ar gyfer 33 o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen ac yn cynnwys plant meithrin rhan amser. Mae'r nifer ar y gofrestr wedi cynyddu ers yr arolygiad diwethaf.

Daw'r disgyblion o ystod eang o gefndiroedd  gyda thua 10% gyda'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn sylweddol is na chyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Mae'r nifer a dderbynnir yn cynrychioli ystod gallu lawn.  Mae tua 11% fel rhai sydd angen cefnogaeth anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol; mae gan 2% ddatganiad o anghenion addysgol arbennig . Mae tua hanner y disgyblion o gefndir ethnig Asiaidd, Dwyrain Ewropeaidd neu arall ac yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Ni ddefnyddia'r un disgybl y Gymraeg fel mamiaith. Nid oes yr un disgybl y gofelir amdano gan yr awdurdod lleol.

Ers i'r ysgol gael ei harolygu ym mis Tachwedd 2005, bu cynnydd arwyddocaol yn nifer y disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Bu hefyd newidiadau staff cyn yr arolygiad gyda'r dirprwy bennaeth yn ymgymryd â rôl pennaeth gweithredol.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes yw £3.005 y disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl ar gyfer ysgolion cynradd Awdurdod Lleol Gwynedd yw £8,442 a'r isafswm yw £2,717. Ysgol Ein Harglwyddes yw'r 90ain allan o 103 o ysgolion cynradd Awdurdod Lleol Gwynedd yn nhermau ei chyllideb fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- safonau llafaredd, darllen ac ysgrifennu yn dda ar draws yr ysgol;
- agwedd disgyblion tuag at holl weithgareddau'r ysgol yn gadarnhaol a bod ganddynt gymhelliant uchel;
- ansawdd addysgu'n dda; a bod
- yr ysgol yn rhoi gwerth da am arian

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- bod perfformiad yng nghyfnod allweddol 1 a 2 wedi dangos gwelliant cyson ymhob un o'r pynciau craidd;
- nad yw gweithdrefnau hunan-arfarnu a monitro yn ddigon grymus;
- ni chaiff aelodau staff eu herio'n ddigonol gan uwch reolwyr i ennill rhagoriaeth ac i roi mentrau newydd ar waith; ac oherwydd
- nad yw prosesau asesu ar gyfer dysgu wedi eu datblygu'n llawn.

## Argymhellion

Er mwyn gwneud cynnydd pellach, mae angen i'r ysgol:

A1 fynd i'r afael â'r diffygion yn ansawdd arweinyddiaeth;

A2 sefydlu prosesau hunan-arfarnu mwy grymus;

A3 gwblhau diweddaru cynlluniau gwaith;

A4 sicrhau bod prosesau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu rhoi ar waith yn drylwyr; a

A5 gwneud defnydd mwy cyson o Gymraeg achlysurol yn ystod gwersi.

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 1 a 2 dros y pedair blynedd diwethaf yn dangos gwelliant cyson ymhob un o'r pynciau craidd ac yn gyffredinol wedi bod yn debyg neu yn well na chyfartaleddau cenedlaethol, lleol a'r teulu o ysgolion. Mae bron pob disgybl, yn enwedig y rhai sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, yn gwneud cynnydd da o'r cyfnod ers iddynt gychwyn yn yr ysgol.

Yn y gwersi a thros dreigl amser gwna'r rhan fwyaf o'r disgyblion gynnydd cadarn neu well yn eu dysgu. Fel y datblygant trwy'r ysgol, mae bron pob un yn dod yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol sy'n gallu gwneud penderfyniadau am ddysgu eu hunain. Mae eu gallu i arfarnu gwaith eu hunain ac i osod targedau personol ar gyfer gwella fodd bynnag, yn ei gyfnod cynnar o ddatblygiad.

Yn ôl eu hoedran a'u cyfnod datblygiad, mae bron pob un disgybl yn cyflawni safonau da mewn llythrennedd. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwrando gan gynnal eu canolbwyntio, maent yn ymateb yn gadarnhaol i gwestiynau ac yn mynegi eu syniadau yn glir. Mae disgyblion hŷn yn cymhwyso eu sgiliau ffonig yn effeithiol wrth ddarllen amrywiaeth o destunau gan ddangos parhad a dilyniant yn eu hadroddiadau ysgrifenedig.

Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn trafod agweddau o'u gwaith yn ddeallus gan ddangos gallu da i gynnal a datblygu cyfraniadau llafar. Mae'r rhan fwyaf yn dangos dealltwriaeth dda o destunau gwahanol ac yn cymhwyso ystod eang o strategaethau priodol i ganfod ac adalw gwybodaeth o lyfrau a gwefannau. Mae bron pob un yn datgan a threfnu eu syniadau mewn ffurf ysgrifenedig yn hyderus ac yn gydlynol gan ddefnyddio strwythur brawddegau gwahanol, paragraffu ac atalnodi gydag effeithiolrwydd cynyddol.

Mae disgyblion o bob oedran yn gwneud cynnydd da yn natblygiad yr iaith Gymraeg. Mae llawer yn ymateb yn gadarnhaol i gyfarchion a chyfarwyddiadau gyda'r mwyaf hyderus yn defnyddio ymadroddion a brawddegau syml a ddysgwyd yn bwrpasol i ddatgan eu syniadau.

**Lles: Da**

Mae gan bob disgybl berthynas dda iawn gyda staff, sydd wedi ei seilio ar ethos gofalgar yr ysgol. Maent yn hapus yn dod i'r ysgol ac yn ffynnu yn ei hawyrgylch o barch y naill i'r llall. Meddant agwedd gadarnhaol tuag at holl weithgareddau'r ysgol sy'n dylanwadu ar eu lles cymdeithasol ac emosiynol. Mae ymrwymiad a chymhelliant y rhan fwyaf yn uchel ac maent yn arddangos balchder a hyder yn eu gwaith.

Fel canlyniad i'w hymwneud â blaengaredd yr Ysgolion Iach, mae disgyblion o bob oedran wedi caffael dealltwriaeth gadarn o sut y gallant fod yn iach, trwy'r hyn maent yn eu fwyta a thrwy'r gweithgarwch corfforol y maent yn ymwneud ag ef.

Mae disgyblion o bob oedran yn ystyriol a chwrtais ac yn perthnasu'n dda â'i gilydd ac oedolion, gan arddangos ymddygiad da yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Yn yr holiaduron cyn-arolygiad , dywed pob un eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol gyda'r rhan fwyaf yn credu bod ymddygiad disgyblion eraill yn dda.

Mae presenoldeb wedi gwella'n gyson yn ystod y tair blynedd diwethaf ac ar hyn o bryd yn uwch na'r canolrif o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Mae bron pob un disgybl yn brydlon.

Wrth iddynt aeddfedu, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn fodlon iawn i ysgwyddo cyfrifoldebau a, thrwy'r cyngor yr ysgol, y pwyllgor eco a gweithgareddau eraill, yn chwarae rhan weithredol yn yr ysgol a'r gymuned. Maent yn hyderus trwy gyfrwng cyngor yr ysgol y clywir ac yr ystyrir eu llais yn ystod prosesau gwneud penderfyniadau'r ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm sy'n eang, cytbwys a pherthnasol ac sy'n cwrdd â'r gofynion statudol. Mae athrawon ac ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio gweithgareddau hyblyg, llawn dychymyg, sy'n llwyddo i ennyn diddordeb yr ystod lawn o ddisgyblion.

Mae cynllunio cwricwlwm yn hynod effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen ble mae profiadau dysgu ysgogol yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu herio drwy brofiadau perthnasol tu fewn i'r ysgol ac yn yr awyr agored, gan ddarparu parhad a dilyniant yn eu dysgu.. Mae rhaglenni cefnogi dysgu effeithiol iawn ar gyfer disgyblion is eu gallu a hefyd y rhai sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn galluogi'r holl ddisgyblion i gymryd rhan yn llawn ymhob gweithgaredd. Darperir tasgau gwahaniaethol addas ar gyfer y disgyblion mwyaf galluog a thalentog.

Mae cynllunio wythnosol a dyddiol ar gyfer datblygu sgiliau allweddol yn dda a chaiff effaith cadarnhaol iawn ar y safonau mae'r disgyblion yn cyflawni. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau byr dymor wedi eu hymgorffori'n llawn i gynlluniau gwaith pynciol ysgol gyfan. Mae hyrwyddo medrau meddwl yn y cyfnod cynnar o ddatblygiad yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r ddarpariaeth a'r cynllunio ar gyfer addysgu a dysgu'r iaith Gymraeg wedi eu haddasu'n dda ar gyfer oedran a gallu'r disgyblion. Mae darpariaeth ddigonol ar gyfer datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o etifeddiaeth a diwylliant Cymreig.

Mae gweithgareddau tu allan i'r ysgol gan gynnwys ymweliadau, chwaraeon, clybiau a gweithgareddau allgyrsiol eraill yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddatblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'r eglwys Babyddol leol ac mae hefyd yn cyfrannu'n rheolaidd tuag at ddigwyddiadau lleol yn y plwyf.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy yn ddigonol gyda'r ysgol ar hyn o bryd yn gweithio tuag at ennill y wobr efydd. Mae darpariaeth briodol ar gyfer ailgylchu deunyddiau a rhoir sylw da i arbed ynni.

Fel canlyniad i'r amrywiaeth gyfoethog o fewn yr ysgol, medda'r disgyblion ddealltwriaeth dda o'u rôl a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion byd eang. Fodd bynnag, nid oes cysylltiadau ffurfiol â gwledydd eraill.

**Addysgu: Da**

Yn gyffredinol, mae ansawdd yr addysgu trwy'r ysgol yn dda. Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion, mae'r gwersi wedi eu cynllunio'n dda ac mae gan yr holl staff wybodaeth bynciol gyfredol.

Bron ymhob gwers, mae athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau yn llwyddiannus i ennyn diddordeb y disgyblion ac i ysgogi eu dysgu. Defnyddir cymorthyddion dosbarth yn effeithiol a gwnânt gyfraniad gwerthfawr i ddysgu.

Mae'r addysgu yn y Cyfnod Sylfaen o ansawdd arbennig o dda gan gadw cydbwysedd da rhwng gweithgareddau a arweinir gan athro a gweithgareddau a gychwynnir gan ddisgyblion. Defnyddir yr amgylchfyd mewnol ac allanol yn feddylgar i gyfoethogi dysgu.

Mae'r berthynas waith cadarnhaol sydd wedi ei datblygu ymhob dosbarth yn creu amgylchedd sy'n hyrwyddo addysgu a dysgu effeithiol.

Mae trefniadau asesu, cofnodi ac adrodd yn gyffredinol dda ac yn cwrdd ag anghenion statudol. Mae system o olrhain cynnydd disgyblion fel y symudant trwy'r ysgol ar hyn o bryd yn cael ei ddatblygu i gydymffurfio â chanllawiau'r awdurdod lleol.

Roedd pob rhiant ymatebodd i'r holiaduron yn dweud eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plant. Mae adroddiadau ysgrifenedig blynyddol, ynghyd â chyfarfodydd rheolaidd gyda staff yn rhoi gwybodaeth fanwl a pherthnasol i rieni am gyflawniad a datblygiad personol eu plentyn.

Mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio yn gydwybodol ac yn gyffredinol, mae o ansawdd da. Yn aml ychwanegir ato gan adborth llafar adeiladol a chynorthwyol iawn gan athrawon.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu, gan gynnwys medrau critigol a threfniadau hunan-arfarnu a gwerthuso cyfoedion, yn y dyddiau cynnar o ddatblygiad yng nghyfnod allweddol 2.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ansawdd y gofal dros ddisgyblion yn dda. Sicrha staff bod awyrgylch gynnes a chroesawus ac y diwallir anghenion unigolion yn dda. Mae disgyblion yn cael eu hannog i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol ac fe gydnabyddir a dethlir eu llwyddiannau.

Caiff addysg bersonol a chymdeithasol a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion ei integreiddio'n llwyddiannus i'r cwricwlwm a'r trefniadau dydd i ddydd. Anogir disgyblion i ysgwyddo cyfrifoldebau, i ddangos parch, myfyrio ar eu credoau a'u barnau eu hunain ac i ddatblygu dealltwriaeth o ddiwylliannau gwahanol.

Caiff yr holl ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol fynediad i bob agwedd o'r cwricwlwm a bywyd yr ysgol. Gwneir defnydd da o asiantaethau allanol a gwasanaethau cefnogi arbenigol. Mae gan ddisgyblion gynlluniau addysg unigol priodol a gânt eu hadolygir pob tymor. Dilynir y gweithdrefnau statudol a chaiff y rhieni wybodaeth lawn. Mae'r holl strategaethau yn galluogi'r disgyblion i wneud cynnydd da.

Gwneir darpariaeth briodol ar gyfer disgyblion mwyaf galluog a thalentog gyda llawer yn elwa'n fawr iawn o weithio gyda grŵp o ddisgyblion hŷn.

Mae gan yr ysgol drefniadau a pholisi priodol ar gyfer diogelu'r disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Darpara'r ysgol amgylchfyd dysgu gynhwysol, ble y caiff yr holl ddisgyblion eu trin yn deg yn unol â'i pholisïau cydraddoldeb. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi ac yn ystyried yn dda iawn amrywiaeth cefndir y disgyblion gan feithrin agwedd o barch a dioddefgarwch ymysg ei disgyblion. Mae monitro agos gan aelodau staff yn sicrhau bod pob disgybl yn rhydd o unrhyw fath o wahaniaethu neu ymddygiad gormesol. Gweithia staff yn dda i ddatblygu ethos cadarnhaol ar gyfer dysgu ac i annog yr holl ddisgyblion i gyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol.

Mae'r adeiladau yn ddigonol ar gyfer y nifer o ddisgyblion ar y gofrestr ac mae yn lân ac yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda. Gwna aelodau o staff ddefnydd da o'r holl ofod sydd ar gael i ddarparu amgylchedd dysgu ysgogol. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn elwa'n fawr o'r ardal awyr agored, a ddefnyddir yn ddychmygus i ddarparu lleoliad cyffrous ar gyfer addysgu a dysgu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth gweithredol, staff a llywodraethwyr yn gweithio'n effeithiol fel tîm i gynnal arfer dda gyfredol ac i feithrin ethos ysgol gyfan gadarnhaol ble'r teimla disgyblion eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae staff yn cyflawni eu rolau a'u dyletswyddau yn gydwybodol. Gwneir defnydd addas o'r cyfarfodydd staff rheolaidd i rannu deilliannau hyfforddiant ac i drafod mentrau newydd. Fodd bynnag, nid chaiff staff eu herio yn ddigonol gan uwch reolwyr i ennill rhagoriaeth ac i roi mentrau newydd ar waith yn effeithiol. Gydag arweiniad priodol, maent yn ddiweddar wedi dechrau defnyddio data perfformiad yn fwy pwrpasol i nodi agweddau ar gyfer datblygiad pellach.

Er bod gan yr ysgol yn gyffredinol ystod briodol o bolisïau , mae rhai bylchau yn y ddogfennaeth, yn enwedig mewn agweddau o ddatblygu'r cwricwlwm.

Caiff rheoli perfformiad ei weithredu yn unol â gofynion statudol ac mae'r trefniadau yn cynnwys y staff i gyd. Mae anghenion hyfforddi yn cael eu cynllunio'n briodol i ddiwallu blaenoriaethau unigolion ac ysgol gyfan. Cysylltir y prosesau yn agos gyda strategaethau gwella ysgol a chaiff y rhain effaith gadarnhaol ar safonau a darpariaeth.

Mae'r llywodraethwyr yn  meddu ar wybodaeth dda am berfformiad yr ysgol a’r materion sy'n effeithio arni. Wrth gael eu tywys ar 'deithiau dysgu'  drwy'r ysgol, cânt drosolwg gwerthfawr o gryfderau’r ysgol a'u helpu i adnabod meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth briodol o’u rôl fel cyfeillion beirniadol i’r ysgol.

Ymgorfforir blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn briodol i raglenni gwaith yr ysgol. Mae’r Cyfnod Sylfaen wedi cael ei weithredu’n llwyddiannus iawn a chaiff effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion ac ansawdd y dysgu. Mae asesu ar gyfer dysgu a phrosesau ar gyfer cymedroli asesiadau athrawon yn eu cyfnod cynnar o ddatblygiad.

**Gwella ansawdd:  Digonol**

Defnyddir gweithdrefnau hunan werthuso sydd wedi hen sefydlu yn rheolaidd gan y tîm rheoli i nodi cryfderau’r ysgol a’r agweddau hynny sydd angen sylw pellach. Mae cydlynwyr pynciau yn chwarae rhan weithgar iawn yn y trefniadau hunan-arfarnu ac yn rhannu eu canfyddiadau gyda chydweithwyr a llywodraethwyr.

Defnyddir ystod briodol o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys arsylwadau gwersi a gyflawnir gan y tîm rheoli.  Fodd bynnag, nid yw deilliannau’r monitro yn ddigon llym nac wedi'u ffocysu'n ddigon clir i sicrhau y rhoir mentrau newydd ar waith yn ddigon effeithiol.

Yn ddiweddar, defnyddiwyd data perfformiad yn fwy pwrpasol i gymharu perfformiad yr ysgol ag ysgolion tebyg, ac i dargedu cymorth ac adnabod grwpiau o ddisgyblion sy’n tan berfformio. Profodd hyn yn strategaeth effeithiol ar gyfer gwella safonau Saesneg.

Darperir digon o gyfleoedd i ddisgyblion a rhieni i ddatgan barn am wahanol agweddau o fywyd yr ysgol.

Mae’r adroddiad hunan-arfarnu yn ddogfen ddefnyddiol. Yn gyffredinol mae’n arfarnol ac mae’r barnau'n glir, gonest ac wedi eu seilio ar dystiolaeth.. Fodd bynnag, nid yw’r prosesau hunan-arfarnu  a monitro yn ddigon grymus i godi safonau a pheri gwelliant.

Mae’r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen bwrpasol a hylaw sy’n gosod cyfeiriad clir ar gyfer gwelliant ysgol bellach. Fodd bynnag, nid yw'r blaenoriaethau ar gyfer 2011-2012  wedi eu nodi yn yr adroddiad hunan-arfarnu fel agweddau sydd angen eu datblygu.  O ganlyniad, mae’r cysylltiad rhwng hunan-arfarnu a gwelliant ysgol yn denau.  Er hynny, mae'r arfarniad dadansoddol o effaith blaenoriaethau 2010 -2011 ar ddisgyblion ac addysgu a dysgu yn ddefnyddiol iawn.

Mae trefniadau i gefnogi ymrwymiad gweithredol yr holl staff i gynyddu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau proffesiynol, gan gynnwys profiadau dysgu proffesiynol ysgol gyfan, yn nodwedd sy’n datblygu yn yr ysgol. Mae sefydlu dwy gymuned ddysgu broffesiynol wedi cael effaith uniongyrchol ar safonau yn y Cyfnod Sylfaen a phen uchaf cyfnod allweddol 2.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae partneriaethau gyda rhieni, y gymuned leol, ysgolion lleol a sefydliadau addysgol yn gyffredinol dda ac fe’u defnyddir yn effeithiol i wella cyfleoedd dysgu’r disgyblion. Mae’r ysgol yn cydweithio’n dda gydag ysgolion eraill, yn enwedig i safoni a chymedroli gwaith disgyblion, ac mae hyn yn cyfrannu’n fuddiol i’w mentrau datblygu cwricwlwm ei hunan. Mae gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau llywodraeth leol a chlwstwr o ysgolion yn gynhyrchiol.

Mae trefniadau mynediad ac anwytho yn sicrhau bod disgyblion wedi eu paratoi’n dda i gychwyn yn yr ysgol. Mae rhaglenni pontio gyda’r ysgolion uwchradd wedi hen sefydlu a theimla’r disgyblion yn hapus a diogel ynghylch symud i addysg uwchradd.

Darpara asiantaethau allanol gefnogaeth effeithiol i ddisgyblion gydag anghenion penodol gan wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn.

**Rheoli adnoddau: Da**

Ceir ystod dda o adnoddau, gan gynnwys deunyddiau ac offer awyr agored. Lleolir staff cymorth yn effeithiol a gweithiant yn dda ochr yn ochr ag athrawon yn y dosbarthiadau i gefnogi dysgu disgyblion.

Gwna athrawon ddefnydd effeithiol o’u hamser cynllunio, paratoi ac asesu ac fe reolir y trefniadau ar gyfer hyn yn dda. Cynllunnir datblygiad staff yn effeithiol mewn perthynas â blaenoriaethau ysgol.

Cysylltir gwariant yn glir gyda blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun datblygu ysgol. Mae’r tîm rheoli a’r corff llywodraethu wedi ymateb yn gadarnhaol i ddiffyg cyllidol posibl ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae deilliannau asesiadau gwaelodlin wedi codi a gostwng yn arwyddocaol dros y blynyddoedd diwethaf, er bod canlyniadau yn gyffredinol yn dangos tueddiad tuag at i fyny o'u cymharu â chyfartaleddau blaenorol yr awdurdod lleol.

Mae canlyniadau asesiadau athrawon am 2011 yng nghyfnod allweddol 1 yn well na'r rhai cenedlaethol, lleol a'r teulu o ysgolion yn y tri phwnc craidd ar lefel 2 neu uwch ac ar y lefel 3 uwch. Mae'r canlyniadau hyn yn gosod cyfnod allweddol 1 yn y 50% uwch o ysgolion tebyg yn yr holl bynciau. Yn gyffredinol, mae tueddiad o welliant cyson dros y pedair blynedd diwethaf ac mae arwyddion bod y cynnydd yma yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.

Yn 2011 roedd canran disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 a lwyddodd i gyflawni lefel 4 neu well yn y tri phwnc craidd, yn uwch na'r cenedlaethol, lleol a theulu o ysgolion.  Roeddynt yn gyffredinol is nac yn y flwyddyn cynt ymhob pwnc gyda llai o ddisgyblion yn cyrraedd y lefel 5 uwch. Doedd fawr iawn o wahaniaeth mewn unrhyw bwnc rhwng perfformiad yr ysgol a chyfartaledd y teulu. Gosododd y canlyniadau hyn gyfnod allweddol 2 yn y 50% isaf o ysgolion tebyg  yn yr holl bynciau.

Mae bron pob un disgybl, beth bynnag eu gallu neu gefndir, yn gwneud cynnydd cyson drwy'r ysgol. Gwneir cynnydd arwyddocaol gan nifer o'r disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae merched a bechgyn yn perfformio cystal â'i gilydd.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cwblhaodd pum deg o rieni'r holiadur, gyda bron pob un un gadarnhaol ac yn gefnogol o'r ysgol. Yn ddieithriad, dywed y rhieni:

- eu bod yn hapus gyda'r ysgol;
- bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol, yn cael ei drin yn deg a gyda pharch;
- bod eu plentyn yn cael ei annog i fod yn iach;
- disgyblion yn ymddwyn yn dda; ac
- yn cael ei addysgu'n dda

Roedd bron pob un o'r rhieni yn teimlo;

- bod eu plentyn wedi cael cymorth i ymgartrefu pan ddechreuodd yn yr ysgol ac yn gwneud cynnydd da;
- bod yr ysgol yn cynorthwyo'u plentyn i aeddfedu;
- eu bod yn gyfforddus ynglŷn â chysylltu â'r ysgol gyda chwestiynau, syniadau neu broblem; a bod
- yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Cwblhaodd pum deg tri o ddisgyblion yr holiadur. Gydag ychydig iawn o eithriadau, dywed disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn gwneud yn dda.

Mae bron pob un yn:

- teimlo bod yr ysgol yn eu cynorthwyo i ddysgu a gwneud cynnydd;
- gwybod at bwy i droi am help os ydynt yn canfod y gwaith yn anodd ; ac
- yn credu bod yr ysgol yn eu dysgu i gadw'n heini a bod llawer o gyfleoedd iddynt i gael ymarfer corff yn rheolaidd.

Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn cytuno bod pob disgybl yn ymddwyn yn dda amser chwarae a bod yr ysgol yn delio'n dda gyda bwlio.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Mr Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Mrs Sarah T Evans | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Kay O'Hanlon | Enwebai’r Ysgol |

**Copïau o’r adroddiad**

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i’r ysgol ddarparu copïau o’r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw’n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy’n gofyn am gopi o’r adroddiad. Os yw ar gael, mae’r adroddiad data i’w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â’r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae’r term ‘Derbyn’ (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy’n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw’r grŵp o fyfyrwyr sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |